

2013 Rhif 3271 (Cy. 321)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Twneli Bryn-glas, Casnewydd) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2013

Wedi'i wneud *24 Rhagfyr 2013*

Yn dod i rym *3 Ionawr 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain - Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y draffordd”) wedi'i fodloni y dylid gwahardd neu cyfyngu ar traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Ionawr 2014 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Twneli Bryn-glas, Casnewydd) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar unrhyw dydd Gwener neu ddydd Sadwrn o fewn cyfnod para'r Gorchymyn hwn ac sy'n dod i ben am 06:00 o'r gloch drannoeth;

ystyr “y darnau o'r draffordd” (“*the lengths of the motorway*”) yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin nac ar y gerbyttfordd tua'r dwyrain ar y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Tra bo cerbydau yn cael eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar lôn fewnol y gerbyttfordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 10, nad ydynt yn cael eu gwahardd ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol cerbyttfordd tua'r gorllewin y draffordd mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r dwyrain.

5. Tra bo cerbydau yn cael eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar lôn fewnol y gerbyttfordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 10, nad ydynt yn cael eu gwahardd ar y gerbyttfordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol cerbyttfordd tua'r dwyrain y draffordd mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gorllewin.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru, peri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw gerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r slipffyrdd a bennir yn Atodlen 2.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 10, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru, peri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr yn y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3.

Ataliadau

8. Mae rheoliad 6(3) o Reoliadau Traffig Cefnffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982(3) drwy hyn yn cael ei atal:

- (a) i'r graddau y mae'n ymwneud â lôn allanol cerbyttfordd tua'r gorllewin y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 ar yr adegau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 4 mewn grym; a
- (b) i'r graddau y mae'n ymwneud â lôn allanol cerbyttfordd tua'r dwyrain y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 ar yr adegau hynny pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 5 mewn grym.

9. Mae darpariaethau rheoliad 3 o'r Rheoliadau Traffig Cefnffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974(4) i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn penodedig o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3 drwy hyn yn cael eu hatal yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 7 yn weithredol.

Cymhwyso

10. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

11. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y

24 Rhagfyr 2013

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; Amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (3) O.S. 1982/1163
- (4) O.S. 1974/502

ATODLENNI

ATODLEN 1 Gwrthlif

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt 150 metr i'r gorllewin o ben gorllewinol Twneli Brynglas tua'r dwyrain hyd at bwynt 480 metr i'r dwyrain o ben dwyreiniol y Twneli a enwyd.

ATODLEN 2 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Hyd cyfan slipffordd ymuno tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 26 (Malpas).

Hyd cyfan slipffordd ymadael tua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 26 (Malpas).

ATODLEN 3
Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o'r draffordd sy'n ymestyn o bwynt 550 metr i'r gorllewin o ben gorllewinol Twneli Brynglas tua'r dwyrain hyd at bwynt 880 metr i'r dwyrain o ben dwyreiniol y Twneli a enwyd.